



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Adroddiad Monitro Cynllun Iaith Gymraeg 2014/15

Llais ac eiriolwr annibynnol
ar gyfer pobl hŷn

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 029 20 44 5030

E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Trydar: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

Fformatau Hygyrch

Of hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob un o'n cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn nifer o fformatau gwahanol oddi ar ein gwefan.

1.0 Cyflwyniad

1.1 Fel sefydliad annibynnol a ariennir gan arian cyhoeddus, mae'n ofynnol o dan y gyfraith i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru lunio Cynllun Iaith Gymraeg ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol. Cafodd y Cynllun, a baratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 15 Gorffennaf 2010.

1.2 Dyma'r trydydd adroddiad i Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei lunio ar gamau gweithredu a gweithrediad cysylltiedig ei Chynllun Iaith Gymraeg a'r cynnydd yn erbyn yr amserlen yn y Cynllun.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar weithgareddau rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015.

1.4 Mae gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru bedwar prif amcan fel y nodir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Codi ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru a'r angen i ddiogelu'r buddiannau hynny.
- Hyrwyddo cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru, a dileu gwahaniaethu yn eu herbyn.
- Annog arfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru.
- Parhau i adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

1.5 Mae Cynllun Iaith Gymraeg Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn nodi ymrwymiad y sefydliad i'r iaith Gymraeg ac yn cefnogi'n llawn yr egwyddor sy'n sail i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef i sicrhau, wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru i'r rheini sydd am ddefnyddio'r Gymraeg, y darperir gwasanaethau o'r un ansawdd uchel â'r rheini a ddarperir drwy gyfrwng yr iaith Saesneg.

2.0 Crynodeb a throsolwg

2.1 Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn a'i staff yn llwyr ymrwymedig i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal ac i wneud popeth yn ei gallu i hyrwyddo rôl allweddol yr iaith Gymraeg drwy ein gwaith. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb wrth wraidd dyletswyddau cyfreithiol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a thybia bod ei gwaith yn ategu gwaith Comisiynydd y Gymraeg.

2.2 Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn nodi'r camau sydd wedi'u cymryd a'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn ystod 2014/15. Mae'r Comisiynydd yn mynd yr ail filltir drwy hyrwyddo dwyieithrwydd y tu hwnt i'n rhwymedigaethau statudol.

2.3 Mewn ymateb i adroddiad monitro 2013/14, gofynnodd Comisiynydd y Gymraeg am ddiweddariad ar ein targedau ar gyfer 2014, sef:

- Adolygiad o'r cynllun
- Arolwg o ddarllenwyr y cylchlythyr
- Defnydd o'r gwasanaeth gan siaradwyr Cymraeg

Mae'r adroddiad yn nodi manylion camau a gymerwyd a phenderfyniadau a wnaed mewn perthynas â'r pwyntiau hyn.

2.4 Ni wnaed unrhyw gwynion yn ymwneud â gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg.

3.0 Busnes craidd

3.1.1 Nid yw'r Comisiynydd yn darparu gwasanaethau rheng flaen i bobl hŷn ac eithrio drwy gyngor a chymorth uniongyrchol a ddarperir i bobl hŷn gan y tîm Gwaith Achos Amddiffyn a Chraffu a'r gwaith a arweinir gan y tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu wrth gynnal digwyddiadau a llunio cyhoeddiadau. Mae'r rhan fwyaf o'n busnes yn ymwneud â gweithio gydag eraill i annog newidiadau mewn polisiau ac arferion. Rydyn ni hefyd yn comisiynu ymchwil ac yn llunio amrywiaeth o gyhoeddiadau.

3.1.2 Roedd gan y Comisiynydd 30 o gyflogeion, gan gynnwys secondeion, ar 31 Mawrth 2015, ar draws pedwar tîm craidd. Ar y pryd, roedd y Comisiynydd yn cyflogi 11 aelod o staff a allai siarad Cymraeg ar wahanol lefelau o ruglder. Mae pob aelod o staff yn cael ei annog a'i gefnogi i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg. Yn ystod y cyfnod hwn, casglom y wybodaeth hon drwy'r arolwg cydraddoldeb a sgiliau Cymraeg blynyddol. Gweler Atodiad 2 sy'n dangos lefel rhuglder ar gyfer yr aelodau o staff a ymatebodd i'r arolwg hwn.

Rydyn ni wrthi'n adolygu ein dull o gasglu'r wybodaeth hon a byddwn yn ystyried ffyrdd eraill o werthuso lefelau rhuglder staff yn y dyfodol.

3.2 Ymholiadau a chymorth

3.2.1 Mae'r sefydliad yn cofnodi dewis iaith pob ymholwr ar ein System Rheoli Busnes (SRhB) fel y gallwn ohebu neu ymgysylltu yn ei ddewis iaith. Mae'r rhan fwyaf o ohebiaeth ac ymholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg, neu lle nodir ar gam cynnar bod y galwr yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg, yn ymwneud ag:

- Ymholiadau gan bobl hŷn a'u heiriolwyr
- Cyswllt gan awdurdodau cyhoeddus
- Ymholiadau sy'n ymwneud â'r cyfryngau
- Ymwelwyr â'r swyddfa sy'n siarad Cymraeg
- Cyswllt wyneb yn wyneb â rhanddeiliaid

3.2.2 I gychwyn, rheolir unrhyw ymholiadau ffôn drwy'r System Rheoli Busnes (SRhB) gan Weinyddwr Dwyieithog, Cynorthwydd Personol neu dderbynnydd (oll o'r Tîm Cyllid a Pherfformiad) a fydd yna'n atgyfeirio'r galwr at aelod o'r Tîm Amddiffyn a Chraffu. Mae pum aelod o'r Tîm Amddiffyn a Chraffu yn siarad Cymraeg, sef 63% o'r tîm. Mae tri aelod o'r Tîm Cyllid a Pherfformiad yn siarad Cymraeg, sef 43% o'r tîm. Y prif ddulliau o gyfathrebu â phobl hŷn yw drwy lythyr, dros e-bost, dros y ffôn ac, yn llai aml, wyneb yn wyneb. Gall y sefydliad ddarparu cymorth i bobl hŷn yn eu hiaith eu hunain.

3.2.3 Cafwyd 13 o achosion yn 2014-15 lle gofynnodd y person hŷn am gael cyfathrebu yn Gymraeg, sy'n cyfateb i 2.5% o achosion.

3.2.4 Mae'r adrannau 'cysylltu â ni' a 'help a chymorth' ar y wefan yn nodi'n glir y gall pobl gysylltu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg, yn yr un modd â'r daflen wybodaeth newydd am y sefydliad.

3.3 Gwasanaethau rheng flaen

Mae'r canlynol ymysg y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer rôl derbynnydd:

- Y gallu i sgwrsio yn Gymraeg a Saesneg i safon a ddisgwylir gan wasanaeth derbynfa dwyieithog mewn sefydliad cyhoeddus
- Y gallu i ddrafftio llythyrau a negeseuon e-bost sylfaenol yn Gymraeg a Saesneg

Bydd y gweinyddwr dwyieithog neu'r cynorthwydd personol dwyieithog yn cyflenwi ar gyfer gwyliau blynyddol, absenoldeb salwch a hyfforddiant. Mae'r canlynol ymysg y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer y rolau hynny:

- Y gallu i sgwrsio yn Gymraeg a Saesneg i safon a ddisgwylir gan wasanaeth

gweinyddu dwyieithog mewn sefydliad cyhoeddus

- Y gallu i ddrafftio llythyrau a negeseuon e-bost sylfaenol yn Gymraeg a Saesneg
- Y gallu i ddrafftio llythyrau ac ymateb i negeseuon e-bost yn Gymraeg a Saesneg gydag eglurder a phwrpas
- Y gallu i ddelio â galwadau ffôn a chymryd negeseuon yn Gymraeg a Saesneg

Os na fydd yr un o'r tri aelod o staff yn gallu ateb y ffôn neu'r drws, mae pob aelod o staff wedi cael:

- Hyfforddiant i gynnig cyfarchiad syml yn Gymraeg, megis 'bore da/prynhawn da' a 'Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru', ac mae negeseuon atgoffa ysgrifenedig ar bob desg
- Rhestr ffôn sydd ar bob desg a derbynfa sy'n nodi, drwy 'laith Gwaith', unrhyw siaradwr Cymraeg arall yn y sefydliad a allai gynnig cymorth

Mae laith Gwaith wedi'i hysbysebu wrth fynedfa derbynfa'r swyddfa ac mae'r derbynnydd, y gweinyddwr dwyieithog a'r cynorthwydd personol oll yn gwisgo bathodyn neu gortyn gwddf laith Gwaith.

3.4 Gwasanaethau caffaeledig

3.4.1 Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau a ddarperir o dan contract i'r Comisiynydd yn wasanaethau uniongyrchol h.y. costau rhedeg gweithredol. Mae'r canlynol ymysg enghreifftiau o wasanaethau caffaeledig:

- Nwyddau a gwasanaethau diriaethol sy'n galluogi'r sefydliad i weithredu'n effeithiol e.e. offer swyddfa, glanhau
- Gwasanaeth archwilio a chyngor cyfreithiol gan weithwyr proffesiynol
- Gwasanaethau cyfieithu, prawfddarllen, cysodi, dylunio ac argraffu.

Mae gan y sefydliad contract â dau gwmni ar gyfer gwasanaeth cyfieithu prydlon o ansawdd sy'n diwallu ein holl anghenion cyfieithu ysgrifenedig.

Mae'r Comisiynydd yn rhoi mwy a mwy o ystyriaeth i fabwysiadu contractau fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) ar gyfer gwasanaethau o ddydd i ddydd, sydd mewn tro yn cael eu monitro ar lefel genedlaethol gan Fwrdd y GCC. Felly, byddai contractau penodol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn gyfyngedig i waith fel ymchwil neu gyngor a chymorth arbenigol.

3.4.2 Mae'r Comisiynydd yn monitro pob contract sy'n cael ei roi ar dendr cyhoeddus (mwy na £15,000 y flwyddyn) ac unrhyw contract lle bo angen ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl hŷn fel rhan o'r fanyleb. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'n defnyddio GwerthwchiGymru i hysbysebu contractau.

3.4.3 Yn ystod 2014-15, adolygodd y Comisiynydd ei thelerau ac amodau safonol, a arweiniodd at ddiwygiad i gynnwys y cymal canlynol:

RHWYMEDIGAETHAU'R IAITH GYMRAEG

Mae'r Cyflenwr yn gwarantu na fydd yn mynd yn groes i Rwymedigaethau'r iaith Gymraeg wrth gyflenwi Gwasanaethau/Ymchwil, nac yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n achosi i'r Comisiynydd Pobl Hŷn fynd yn groes i Rwymedigaethau'r iaith Gymraeg⁽¹⁾.

(1) Ystyr '**Rwymedigaethau'r iaith Gymraeg**' yw'r rhwymedigaethau sydd ar y Comisiynydd Pobl Hŷn mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg, p'un a yw hynny o dan unrhyw gyfraith, o dan unrhyw gynllun iaith Gymraeg a wnaed o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, o dan unrhyw rai o safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r Comisiynydd Pobl Hŷn o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, neu unrhyw rwymedigaethau penodol mewn perthynas â'r defnydd o'r Gymraeg mewn cysylltiad â darparu Gwasanaethau/Ymchwil y rhoddir gwybod i'r Cyflenwr amdanynt o bryd i'w gilydd;

3.4.4 Yn ystod 2014-15, hysbysebodd y Comisiynydd ddau gontract ar GwerthwchiGymru, a gyhoeddwyd yn ddwyieithog.

Yn y ddwy fanyleb, cafodd datganiad clir ei gynnwys yn ychwanegol at y cymal yn y telerau ac amodau safonol.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (y Comisiynydd) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

1. Rhoddodd y Cynllun Gwahaniaethu ar Sail Oedran y gofynion canlynol ar y cyflenwr:

Mae swyddfa'r Comisiynydd yn sefydliad dwyieithog ac felly mae'n rhaid i'r holl ohebiaeth a deunyddiau sy'n ymwneud â'r ymgyrch fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Ni wnaethom benodi cyflenwr i'r contract hwn.

2. Rhoddodd yr ymchwil ar brofiadau'r rheini sy'n byw gyda dementia y gofyniad canlynol ar y cyflenwr:

Mae swyddfa'r Comisiynydd yn sefydliad dwyieithog; rhaid i'r holl ohebiaeth a

deunydd sy'n ymwneud â'r prosiect felly fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan gynnwys unrhyw grwpiau ffocws neu gyfweiliadau â rhanddeiliaid sy'n cael eu cynllunio.

Dechreuodd y contract ar 11 Mehefin 2015 a byddwn yn parhau i fonitro perfformiad y cyflenwr yn ystod 2015-16.

4.0 Cyhoeddiadau

4.1 Mae unrhyw ddeunydd sydd wedi'i anelu at y cyhoedd yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog. Caiff hyn ei reoli a'i fonitro gan y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

4.2 Caiff adroddiadau a thafenni gwybodaeth sy'n cael eu hargraffu a'u dosbarthu ar ffurf copi caled eu llunio gan ddefnyddio'r dull dylunio wyneb i waered, ac eithrio lle tybir bod y ddogfen yn rhy fawr. Mewn achosion o'r fath caiff copïau Cymraeg a Saesneg eu hargraffu i sicrhau bod y ddogfen yn hawdd ei defnyddio.

4.3 Mae unrhyw gyhoeddiadau'n dilyn y canllawiau cyfathrebu mewnol. Mae canllaw dylunio dwyieithog Comisiynydd y Gymraeg, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2014, wedi bod yn adnodd defnyddiol.

4.4.3 Yn ystod 2014/15, roedd y rhan fwyaf o gyhoeddiadau a gynhyrchwyd yn defnyddio dyluniad wyneb i waered. Er enghraifft, adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad 2014/15, taflen wybodaeth newydd am y Comisiynydd a'i gwaith, taflen wybodaeth am gam-drin domestig a chynllun gweithredu Heneiddio'n Dda yng Nghymru.

Cynhyrchodd y Comisiynydd yr Adroddiad Adolygu Cartrefi Gofal fel dwy ddogfen ar wahân gan fod yr adroddiad yn rhy fawr i fod ar ffurf un ddogfen hawdd ei defnyddio (roedd y fersiwn Gymraeg yn 163 tudalen o hyd a'r fersiwn Saesneg yn 156 tudalen).

4.4 Mae'r Comisiynydd yn cynhyrchu pedwar math o ddogfen:

- Cyhoeddiadau wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd allanol. Mae'r rhain bob amser ar gael yn ddwyieithog.
- Dogfennau i lywio gwaith y Comisiynydd ond nad ydynt i'w rhannu â'r cyhoedd cyffredinol yn y lle cyntaf. Mae'r rhan fwyaf o ddogfennau o'r fath yn ymwneud â data ymchwil crai sydd wedi'i gomisiynu o ffynhonnell academaidd. Pe bai'r ddogfen hon yn cael ei rhannu â'r cyhoedd, byddai'n cael ei chyfieithu.
- Erthyglau i'r cyfryngau. Caiff y rhain eu cynhyrchu yn iaith wreiddiol y cais gan y cyfryngau. Os caiff yr erthygl ei hatgynhyrchu a'i rhoi ar y wefan yna byddai'n cael ei chyfieithu i Saesneg / Cymraeg ar y pwynt hwnnw.

- Dogfennau mewnol y mae'r Comisiynydd yn tybio eu bod wedi'u heithrio rhag ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth. Bydd y dogfennau ond ar gael yn eu hiaith wreiddiol.

Delir ag unrhyw ddogfennau nad ydynt yn perthyn i'r categorïau hyn ar sail unigol gan y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

4.5 Caiff unrhyw friffiau a ddarperir i wleidyddion a rhanddeiliaid allweddol eu llunio'n ddwyieithog.

4.6 Caiff unrhyw ymatebion i ymgynghoriadau hefyd eu cyfieithu pan gânt eu lanlwytho i'r wefan.

4.7 Mae fformatau hygyrch dwyieithog o ddogfennau ar gael i gynulleidfaoedd ar gais. Mae Braille Cymraeg yn ddatblygiad newydd, ac nid oes llawer o bobl hŷn yn manteisio arno. Mae'r defnydd o adnoddau sain Cymraeg hefyd yn debygol o fod yn isel, ac ar y sail hon teimlwn y gallwn gyfiawnhau cynnig gwasanaeth ar gais. Rydyn ni wedi dod o hyd i gynhyrchydd a all lunio copïau ar fyr rybudd yn ôl yr angen.

5.0 Delio â'r Cyhoedd yng Nghymru

5.1 Ffurflenni ac arolygon

5.1.1 Caiff unrhyw ffurflenni ac arolygon eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg, a gellir eu cwblhau yn y naill iaith. Ymysg enghreifftiau o 2014/15 mae holiadur adborth ynglŷn â chylchlythyr y Comisiynydd, ffurflenni adborth ar hyfforddiant gwahaniaethu a ffurflenni i ddarparwyr cartrefi gofal i ddarparu tystiolaeth fel rhan o Adolygiad Cartrefi Gofal y Comisiynydd.

5.2 Gohebiaeth

5.2.1 Wrth ddarparu gwasanaethau, rydyn ni'n sicrhau bod statws cydradd yn cael ei roi i'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r un safonau gwasanaeth yn berthnasol ar gyfer delio ag unrhyw ohebiaeth Gymraeg neu Saesneg mewn unrhyw fformat.

5.2.2 Caiff unrhyw ohebiaeth, ym mha bynnag iaith, ei phrosesu yn unol â thargedau perfformiad a safonau gwasanaeth sydd wedi'u pennu. Caiff y rhain eu monitro drwy ein System Rheoli Busnes.

5.2.3 Caiff unrhyw ohebiaeth ffurfiol ag amrywiaeth o gyrrff, e.e. hysbysiadau o Adolygiadau, ei darparu'n ddwyieithog.

5.2.4 Caiff unrhyw negeseuon e-bost Cymraeg sy'n dod i law eu prosesu i'r un safonau amser â negeseuon e-bost Saesneg. Mae pob aelod o staff yn defnyddio llofnodion e-bost dwyieithog.

5.2.5 Mae pecyn meddalwedd Cysgliad yn parhau i gael ei ddarparu i bob aelod o staff sy'n siarad Cymraeg, ac mae gan yr holl staff fynediad i gopi o'r Geiriadur Mawr. Hefyd, mae gan staff fynediad i ddogfen ganllaw ddefnyddiol iawn, sef 'Y Treiglador' a gyhoeddir gan Ulpan.

5.3 Galwadau Ffôn

5.3.1 Y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer pobl sy'n ffonio swyddfa'r Comisiynydd yw'r derbynnydd dwyieithog. Bydd y gweinyddwr dwyieithog neu gynorthwydd personol dwyieithog yn cyflenwi ar gyfer gwyliau blynyddol, absenoldeb salwch a hyfforddiant.

Os na fydd yr un o'r tri aelod o staff yn gallu ateb y ffôn neu'r drws, mae pob aelod o staff wedi cael:

- Hyfforddiant i gynnig cyfarchiad syml yn Gymraeg, e.e. Prynawn Da, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru; ac mae negeseuon atgoffa ysgrifenedig ar bob ffôn.
- Rhestr ffôn sy'n nodi, drwy 'laith Gwaith', unrhyw siaradwr Cymraeg arall yn y sefydliad a allai gynnig cymorth.

Mae 'laith Gwaith' wedi'i hysbysebu wrth fynedfa'r dderbynfa. Mae'r derbynnydd, y gweinyddwr dwyieithog a'r cynorthwydd personol oll yn gwisgo bathodyn neu gortyn gwddf 'laith Gwaith'.

5.3.2 Mae'r Tîm Amddiffyn a Chraffu yn darparu cymorth gwaith achos wedi'i deilwra i bobl hŷn a'u teuluoedd yn Gymraeg neu Saesneg. Mae 63% o'r tîm yn siarad Cymraeg ac mae'r ddwy rôl sy'n derbyn y galwadau cychwynnol gan y derbynnydd wedi'u llenwi â siaradwyr Cymraeg; ar y pwynt ateb cychwynnol hwn y nodir ac y cofnodir dewis iaith ar y SRhC (system rheoli cofnodion).

5.3.3 Mae negeseuon 'y tu allan i oriau' wedi'u recordio'n ddwyieithog ar ein ffôn ateb.

5.4 Cyfarfodydd Cyhoeddus

5.4.1 Mae'r Comisiynydd yn cynnal cyfarfodydd sydd ar agor i randdeiliaid a'r cyhoedd drwy wahoddiad yn unig. Caiff gwahoddiadau a hysbysiadau cyhoeddusrwydd y digwyddiad eu hanfon i gynrychiolwyr yn ddwyieithog. Caiff gwahoddedigion wybod bod croeso iddyn nhw siarad Cymraeg yn y cyfarfod, ac y dylent roi gwybod i ni os ydynt am wneud hynny. Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os bydd y prif siaradwr yn y digwyddiad yn siarad Cymraeg neu os bydd cynrychiolwyr yn rhoi gwybod i ni eu bod yn dymuno siarad Cymraeg mewn unrhyw sesiynau cysylltiedig. Caiff gwybodaeth mewn pecynnau ei ddarparu'n ddwyieithog, yn ogystal ag unrhyw adroddiad dilynol ar gyfer y digwyddiad. Er

enghraifft, yn 2014/15 cynhaliwyd seminarau gwasanaethau cymunedol yng Ngogledd a De Cymru ar gyfer staff Awdurdod Lleol allweddol lle siaradodd y prif siaradwyr yn Gymraeg a darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

5.4.2 Rydyn ni'n dilyn canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg gynt ar drefnu/cynnal cyfarfodydd dwyieithog.

5.4.3 Dilynir rhestr wirio i gefnogi'r gwaith o gynllunio a darparu digwyddiadau sy'n cael eu trefnu. Mae'r rhestr wirio hon yn cynnwys ystyriaeth o ofynion iaith.

5.5 Presenoldeb Personol

5.5.1 Mae swyddfa'r Comisiynydd yn cynnig cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn bennaf ar gyfer y rheini sy'n cael ei chael hi'n amhosibl neu'n afresymol o anodd defnyddio'r ffôn. Gall galwyr personol sy'n dymuno cael cyfweiliad wyneb yn wyneb a drefnir ymlaen llaw wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg. Cynigir y gwasanaeth hwn yn rhagweithiol yn Gymraeg ac mae aelodau'r tîm Gwaith Achos Amddiffyn a Chraffu yn meddu ar y gallu i nodi pan fo angen cynnal cyfweiliad o'r fath.

Ni chynhaliwyd unrhyw gyfweiliadau wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2014/15.

6.0 Hunaniaeth Gorfforaethol y Sefydliad

6.1 Mae'r Comisiynydd yn ymrwymedig i fod yn sefydliad dwyieithog ac adlewyrchir hyn yn ein hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog, sy'n cynnwys:

- Logo dwyieithog
- Papur pennawd dwyieithog
- Slipiau cyfarch dwyieithog
- Mae pob datganiad i'r cyfryngau'n cael ei anfon yn ddwyieithog
- Mae'r holl ddeunydd a gyhoeddir yn ddwyieithog
- Gwefannau Cymraeg/Saesneg sy'n adlewyrchu ei gilydd
- Cyfrifon Twitter sy'n adlewyrchu ei gilydd
- Cardiau busnes dwyieithog
- Deunyddiau arddangos dwyieithog
- Deunyddiau dwyieithog, megis taflenni gwybodaeth, adroddiadau, bagiau a phennau

7.0 Cyhoeddusrwydd

7.1 Gwefan

7.1.1 Mae gwefan y sefydliad yn hollol ddwyieithog, gyda fersiynau Cymraeg a Saesneg sy'n adlewyrchu ei gilydd. Cyhoeddir deunyddiau ar yr un pryd yn Gymraeg a Saesneg.

7.1.2 Mae gan y Comisiynydd gyfrifon Twitter Cymraeg a Saesneg sy'n adlewyrchu ei gilydd ac mae'n annog staff sy'n siarad Cymraeg i drydar yn Gymraeg yn y lle cyntaf.

7.2 Hysbysiadau i'r Wasg a Hysbysebu

7.2.1 Cyhoeddir unrhyw ddatganiadau i'r cyfryngau yn Gymraeg a Saesneg a chânt eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar ein gwefan. Darperir cyswllt sy'n siarad Cymraeg, y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, ar bob datganiad. Yr unig eithriad lle na chaiff copi dwyieithog ei gyhoeddi yw pan fyddwn yn cynnig sylw neu ymateb mewn perthynas â chyhoeddiad sy'n Saesneg yn unig, e.e. sylw yn y Western Mail, neu gyhoeddiad sy'n Gymraeg yn unig, e.e. sylw yn Golwg. Os caiff hwn yna ei gyhoeddi ar ein gwefan, bydd ar gael yn y ddwy iaith.

7.2.2 Lle y bo'n bosibl rydyn ni bob amser yn cynnal cyfweiliadau gyda'r cyfryngau yn Gymraeg a Saesneg ar gais, ac rydyn ni'n annog sylw yn y cyfryngau drwy'r wasg Gymraeg genedlaethol a lleol.

8.0 Recriwtio a Staffio

8.1 Mae gan y Comisiynydd brotocol sefydledig o ran hysbysebion recriwtio ac mae'n croesawu ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg ar gyfer unrhyw swyddi gwag yn y sefydliad.

Mae Polisi Recriwtio'r Comisiynydd yn nodi:

- Caiff pob penodiad ei wneud yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Comisiynydd.
- Bydd gan y Comisiynydd ddigon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol i sicrhau y gall ddarparu gwasanaeth llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd pob hysbyseb yng Nghymru yn ddwyieithog neu fel arall drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd. Mae croeso i ymgeiswyr gyflwyno cais yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog.

- Mae sgiliau cyfathrebu'n rhan allweddol o fframwaith cymhwysedd y Comisiynydd. Wrth ddrafftio manyleb person, bydd rheolwyr yn ystyried i ba raddau y byddai'n hanfodol neu'n ddymunol i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gellid ystyried rhuglder yn y Gymraeg yn hanfodol lle bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfathrebu'n uniongyrchol â phobl hŷn (neu randdeiliaid eraill) yn eu dewis iaith.
- Gellid ystyried rhuglder yn y Gymraeg yn ddymunol lle bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus brosesu cyfathrebiadau gan bobl hŷn (neu randdeiliaid eraill) yn eu dewis iaith.
- Lle ystyrir rhuglder yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer swydd, nodir hynny yn y disgrifiad swydd a'r fanyleb person.
- Yn gyffredinol, mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn fanteisiol i ymgeiswyr.
- Lle gwneir penodiad a bod angen datblygu lefel rhuglder neu lythrennedd y person ymhellach, cynigir hyfforddiant a chymorth priodol

Yn ymarferol, pan fo swydd wag yn codi, caiff y disgrifiad swydd presennol ei adolygu a chaiff y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer y rôl eu hadolygu ar yr un pryd.

Lle bo angen creu swydd newydd, bydd y Cyfarwyddwr yn asesu'r sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer y rôl. Fel y nodir yn y polisi, ystyrir y canlynol:

- Yr angen i gyfathrebu'n uniongyrchol â phobl hŷn neu randdeiliaid allweddol eraill yn eu dewis iaith.
- Lle nad yw'r angen i gyfathrebu'n uniongyrchol yn hanfodol, nifer y rolau sydd â sgiliau Cymraeg ym mhob rhan o'r sefydliad.

8.2 Bydd hysbysebion recriwtio a disgrifiadau swydd yn dynodi a yw'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol iawn. Lle bo swydd wedi nodi bod y gallu i gyfathrebu'n Gymraeg yn hanfodol, rhoddir hysbysebion recriwtio yn y cyfryngau Cymraeg. Fodd bynnag, mae unrhyw hysbysebion yn ddwyieithog waeth lle cânt eu cyhoeddi.

8.3 Cynhelir cyfweiliadau recriwtio'n ddwyieithog hefyd os yw'r swydd wedi'i nodi fel un y mae angen sgiliau Cymraeg i'w chyflawni. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Comisiynydd wedi hysbysebu 6 swydd wag yn y cyfryngau Cymraeg, gan gynnwys lleol.net, gwefan Menter Caerdydd a thrwy asiantaeth recriwtio Gymraeg arbenigol, gan dderbyn un cais recriwtio wedi'i gwblhau yn Gymraeg. Roedd angen sgiliau Cymraeg ar gyfer dwy swydd yn 2014-15, a chawsant eu profi yn y cyfweiliadau.

8.4 Caiff hysbysebion swydd a phecynnau recriwtio eu cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg. Gofynnir i ymgeiswyr nodi eu gwybodaeth o'r Gymraeg fel rhan o'r broses ymgeisio.

Os hysbysebir bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd ond na ellir penodi gan nad yw'r holl feini prawf wedi'u bodloni ar y cam ymgeisio a/neu gyfweld, caiff y rôl ei hadolygu eto. Caiff y rôl ei hadolygu ochr yn ochr â rolau sydd eisoes yn bodoli ac ystyrir y cymwyseddau angenrheidiol yn erbyn rolau eraill, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sgiliau Cymraeg. Dim ond y Comisiynydd all wneud y penderfyniad i addasu'r gofynion Cymraeg ar gyfer rôl.

8.5 Yn ystod 2014-15, cododd un swydd wag i gyflenwi yn ystod absenoldeb mamolaeth o 12 mis lle hysbysebwyd y rôl fel 'Cymraeg hanfodol' i ddechrau. Methwyd â phenodi yn erbyn y cymwyseddau gofynnol ar draws y meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl. Yna ystyriwyd ffactorau eraill ymhellach:

- Mae'r absenoldeb mamolaeth yn debygol o fod yn 12 mis ar y mwyaf, h.y. cyfnod penodol, ac ni chynigir unrhyw newidiadau i ofynion parhaol y rôl.
- Mae gan dri aelod arall o'r tîm sgiliau Cymraeg.
- Mae nifer yr ymholiadau a geir a'r gwaith achos a wneir drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynrychioli llai na 10% o'r holl waith achos, felly asesodd y rheolwr fod digon o gapasiti yn y tîm i ddelio ag ymholiadau a gwaith achos Cymraeg heb gael effaith negyddol ar bobl hŷn sy'n cysylltu â'r Comisiynydd yn Gymraeg.

Felly, ar gyfer cyfnod penodol o absenoldeb mamolaeth, tybiwyd y byddai'n rhesymol ailhysbysebu gyda'r Gymraeg yn ofyniad dymunol. Bydd y gofyniad ar gyfer y rôl parhaol yn parhau'n hanfodol nes bod anghenion busnes yn newid.

8.6 Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i gynnwys fel rhan o'r cwrs sefydlu ar gyfer aelodau newydd o staff.

8.7 Mae gweithredu mewn amgylchedd dwyieithog yn egwyddor graidd sydd wedi cael ei chefnogi gan yr holl staff o'r cychwyn cyntaf. Adlewyrchir hyn gan yr ymrwymiad personol cryf i ddwyieithrwydd ymysg yr holl staff a thimau. Yn ogystal â sesiynau sefydlu a sesiynau gloywi ar ymwybyddiaeth, cynigir cyfleoedd anffurfiol hefyd i roi'r cyfle i siaradwyr Cymraeg rhugl a dysgwyr siarad Cymraeg yn y gweithle, megis drwy gefnogi 'Diwrnod Shwmae'. Darperir hysbysfyrdau dwyieithog a chaiff deunydd ei arddangos yn ddwyieithog.

9.0 Sgiliau Cymraeg

9.1 Cymerwyd y camau canlynol i wella sgiliau'r gweithlu yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ar recriwtio allanol:

- Hyrwyddo cyrsiau hyfforddi ar yr iaith Gymraeg a sesiynau sy'n addas i ddysgwyr a'r rheini sydd am wella eu hiaith.
- Darparu cyllid o'r gyllideb Dysgu a Datblygu i gefnogi cyflogeion sydd am ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Gweithredu amgylchedd gwaith dwyieithog lle anogir y defnydd o'r Gymraeg. Ymysg yr enghreifftiau o weithgareddau ymarferol sy'n galluogi hyn mae 'ymadrodd Cymraeg yr wythnos' a 'Diwrnod Shwmae', sy'n ddigwyddiad a gefnogir yn flynyddol.
- Gweithredu amgylchedd cefnogol i alluogi siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith fel rhan o'u gwaith. Ymysg yr enghreifftiau o weithgareddau ymarferol sy'n galluogi hyn mae'r defnydd rheolaidd o gyfarchion ac ymadroddion cyffredin ac ymdrechion gan siaradwyr Cymraeg mwy rhugl i ymgysylltu â dysgwyr drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Defnyddio byrddau swyddi ac asiantaethau recriwtio Cymraeg i dargedu siaradwyr Cymraeg wrth recriwtio aelodau newydd o staff, lle bo cyllidebau'n caniatáu hynny.
- Cynnwys ymwybyddiaeth iaith mewn sesiwn sefydlu i aelodau newydd o staff.
- Hyfforddiant rheolaidd ar gyfer staff presennol yn ymwneud â'r Cynllun Iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth iaith.
- Cefnogaeth a darpariaeth i staff i'w helpu i ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg.

9.2 Hyfforddiant iaith

Yn ystod 2014/15, mynychodd tri aelod (10%) o dîm y Comisiynydd hyfforddiant iaith Gymraeg i wella eu lefel benodol o gymhwysedd, gan gynnwys dau aelod o staff a oedd eisoes yn fedrus a oedd am loywi eu sgiliau gramadegol ysgrifenedig.

Mae'r Comisiynydd yn cefnogi staff sydd am ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ac yn darparu cymorth ariannol ac amser astudio â thâl i staff i'w galluogi i fynychu hyfforddiant. Yn anffodus, yn ystod 2014/15 cafodd cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg a archebwyd ar gyfer dau aelod o staff eu canslo oherwydd niferoedd isel, ac nid ydynt wedi cael eu haildrefnu hyd yn hyn.

9.3 Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith

Mae'r Comisiynydd yn cynnal hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i bob aelod o staff ar sail flynyddol. At hynny, mae aelodau newydd o staff hefyd yn cael gwybodaeth am y Cynllun Iaith Gymraeg ac ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'u rhaglen sefydlu ffurfiol.

Ar hyn o bryd, mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn cydweithio â sefydliadau sector cyhoeddus sy'n debyg o ran maint, gan gynnwys y Comisiynydd Iaith, i geisio ac ariannu hyfforddiant i'w staff. Ochr yn ochr â gwaith cyfredol y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i ddatblygu fframwaith ar gyfer darparu hyfforddiant i sefydliadau sector cyhoeddus ledled Cymru, y gobaith yw y bydd hyn yn lleihau costau ac yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sgiliau Cymraeg ynghyd â sicrhau bod mwy o hyfforddiant ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

9.4 Yn ystod 2014/15, cyflogodd y Comisiynydd 30 aelod o staff ar un safle, gan gynnwys 12 aelod o staff a allai siarad Cymraeg ar wahanol lefelau o ruglder.

Adran	Nifer y Siaradwyr Cymraeg yn yr Adran	% y Siaradwyr Cymraeg yn yr Adran
Lles a Grymuso	2	22
Diogelu a Chraffu*	5	63
Cyllid a Pherfformiad**	3	43
Cyfathrebu ac Ymgysylltu	1	20
Comisiynydd	0	0

Gradd	Nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y Radd	% y siaradwyr Cymraeg o fewn y Radd
A	2	50
B	2	28
C	4	40
D	2	50
E	1	50
F	0	0
Comisiynydd	0	0

* Mae'r adran hon yn cynnwys tîm Gwaith Achos y Comisiynydd sy'n rheoli ymholiadau gan aelodau o'r cyhoedd.

** Mae'r adran hon yn cynnwys staff derbynfa a chymorth gweinyddol rheng flaen y Comisiynydd.

Gwnaeth y Comisiynydd hefyd recriwtio dau siaradwr Cymraeg ychwanegol yn 2014/15 a ddechreuodd yn eu swyddi yn chwarter cyntaf 2015/16. 1 aelod o staff yn y tîm Cyllid a Pherfformiad ar Radd B; ac 1 aelod o staff yn y tîm Lles a Grymuso ar Radd D.

10.0 Rheoli a Gweinyddu'r Cynllun

10.1 Nid oes unrhyw newidiadau wedi bod i'r gwaith o lywodraethu a chraffu ar y Cynllun Iaith Gymraeg yn fewnol. Y Comisiynydd sy'n gyffredinol gyfrifol am ddarparu, monitro ac adolygu'r Cynllun ac mae'n parhau i gael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, sy'n sicrhau bod ganddo broffil uchel o fewn a ledled y sefydliad.

10.2 Mae pob tîm yn gyfrifol am weithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd yn seiliedig ar ei waith. Mae pob Cyfarwyddwr yn gyfrifol am oruchwylio'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg o fewn ei dîm. Dosberthir y Cynllun Iaith Gymraeg i staff i sicrhau eu bod yn ymwybodol o fanylion gofynion yr iaith Gymraeg, ac fe'i darperir i bob aelod newydd o staff yn y cyfnod sefydlu. Mae'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu hefyd yn cwrdd â phob aelod newydd o staff i drafod y cynllun yn fanwl. Y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu sy'n gyfrifol am ddogfennau allanol a'r wefan.

10.3 Nodwyd dau faes risg yn ystod y flwyddyn sy'n ymwneud â chyfyngiadau ar adnoddau ac sy'n atal y Comisiynydd rhag gwneud cynnydd pellach yn y dyfodol agos:

- Rheoli perfformiad staff, gan gynnwys disgyblu a chwyno:

Nid yw'r Ymgynghorydd AD a Lles yn siaradwr Cymraeg ac nid yw pob rheolwr llinell yn siaradwr Cymraeg. Golyga hyn, pan fydd aelod o staff yn dewis dilyn ein polisiau a'n gweithdrefnau yn Gymraeg, byddai angen defnyddio gwasanaeth dehongli trydydd parti. Byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i flaenoriaethu'r adnoddau ariannol angenrheidiol i sicrhau'r gwasanaeth hwn.

- Systemau rheoli cyfredol ar gyfer y fewnrwyd a chofnodion:

Mae'r systemau rheoli cyfredol ar gyfer y fewnrwyd a chofnodion ond ar gael yn Saesneg ar hyn o bryd, er bod fersiynau Cymraeg o ddogfennau'n cael eu storio yma i staff allu eu defnyddio. Nid oes adnoddau ariannol ar gael ar hyn o bryd i ailadeiladu'r system i'w galluogi i fod ar gael yn Gymraeg, ond bydd hyn yn ofyniad ar gyfer unrhyw system newydd sy'n cael ei phrynu yn y dyfodol pan ellir sicrhau cyllid ychwanegol.

10.4 Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg ar gael ar y wefan yn <http://www.olderpeoplewales.com/en/publications/strategic-docs/welsh-language-scheme.aspx>

10.5 Cynghorir aelodau o'r cyhoedd sydd am gwyno am fethiant i gydymffurfio â gofynion y Cynllun i gyfeirio'r gŵyn at Reolwr Cwynion y Comisiynydd. Nid oes unrhyw gwynion ffurfiol wedi'u derbyn hyd yma ac rydym wedi cael canmoliaeth am safon uchel ein cyfieithiadau.

Atodiad 1

Diweddariad 2014/15

Cam Gweithredu	Targed	Diweddariad
Adolygu'r cynllun bob pedair blynedd	Adolygiad llawn wedi'i gynnal gydag adroddiad yn nodi manylion unrhyw newidiadau i'r cynllun	Eleni, cymerodd y Comisiynydd ran yn ail gylch Comisiynydd y Gymraeg o ymchwiliadau safonau. Yn sgîl hynny, ac oherwydd amseru'r ymchwiliadau, nid ydym wedi adolygu'r Cynllun Iaith Gymraeg
Ceisio barn siaradwyr Cymraeg ar ein gwasanaethau a'n cynnyrch	Cynnal arolwg o ddarllenwyr y cylchlythyr yn dilyn lansio ein gwefan newydd	Anfonwyd holiadur at bob unigolyn sy'n cael copi caled o'r holiadur yn Gymraeg yn gofyn naw cwestiwn, megis pa mor fodlon ydyn nhw ar gynnwys, arddull, y pynciau yr ymdrinnir â hwy ac ati. Cafwyd cyfradd ymateb o 10% gyda phob ymatebwr yn nodi ei fod naill ai'n fodlon iawn neu'n fodlon ar bob agwedd.
Gwaith pellach i ddadansoddi data ar y defnydd o'r gwasanaeth gan siaradwyr Cymraeg	Meincnodi ein dull gweithredu yn erbyn rhai sefydliadau tebyg	Roedd y Cyfarwyddwr a oedd yn gyfrifol am hyn yn newydd i'w swydd ac mae wedi adolygu pob polisi a phrotocol ar gyfer ei thîm. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Cyfarwyddwr hefyd wedi edrych ar sut y caiff data ei gasglu a'i gofnodi a pha mor effeithiol mae'r broses hon. Mae hon yn broses barhaus felly caiff y cam gweithredu hwn ei ddatblygu yn 2015/16.

Atodiad 2

Mae'r Comisiynydd yn cynnal arolwg staff blynyddol i gasglu data rheolaidd ar gydraddoldeb. Mae'r arolwg yn gyfrinachol ac mae'r ymatebion yn ddiennw. Ar gyfer blwyddyn adrodd 2014/15 cafodd y Comisiynydd 23 o ymatebion allan o 30 posibl.

Listening / Gwrando

Able to follow routine conversations in work between fluent Welsh speakers / Gallu dilyn sgysiau arferol yn ymwneud â gwaith rhwng siaradwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg.	1
Able to follow the majority of conversations involving work, excluding group discussions/ Gallu dilyn y mwyafrif o sgysiau'n ymwneud â gwaith gan gynnwys trafodaethau grŵp.	2
Able to follow the majority of conversations involving work, including group discussions / Gallu dilyn y mwyafrif o sgysiau'n ymwneud â gwaith gan gynnwys trafodaethau grŵp.	6
Able to understand a basic social conversation in Welsh / Gallu deall sgwrs gymdeithasol sylfaenol yn y Gymraeg.	2
Able to understand basic enquiries in Welsh / Gallu deall ymholiadau sylfaenol yn y Gymraeg	5
No Skills / Dim sgiliau	7

Reading / Darllen

Able to follow routine conversations in work between fluent Welsh speakers/ Gallu darllen deunydd arferol gyda chymorth geiriadur.	2
Able to follow the majority of conversations involving work, excluding group discussions / Gallu darllen y rhan fwyaf o'r deunydd sy'n ymwneud â fy maes fy hun.	1
Able to follow the majority of conversations involving work, including group discussions / Gallu deall yr holl ddeunydd sy'n ymwneud â gwaith.	6
Able to understand a basic social conversation in Welsh/ Gallu darllen deunydd sylfaenol yn ymwneud â gwaith (yn araf).	2
Able to understand basic enquiries in Welsh /Gallu darllen geiriau ac ymadroddion sylfaenol byr a syml.	4
No Skills / Dim sgiliau	8

Speaking / Siarad

Able to follow routine conversations in work between fluent Welsh speakers / Gallu sgwrsio â rhywun arall, rhywfaint yn betrusgar, ynghylch materion gwaith arferol.	1
Able to follow the majority of conversations involving work, excluding group discussions / Gallu siarad yr iaith yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd gan ddefnyddio rhywfaint o eiriau Saesneg.	2
Able to follow the majority of conversations involving work, including group discussions / Rhugl – gallu cynnal sgwrs ac ateb cwestiynau, am gyfnod estynedig pan fo angen.	6
Able to understand a basic social conversation in Welsh / Gallu ateb ymholiadau sylfaenol yn ymwneud â gwaith.	2
Able to understand basic enquiries in Welsh / Gallu cynnal sgwrs gyffredinol	5
No Skills / Dim sgiliau	7

